

**ENWI 2022**

**2022 THEME AND COUNTRY**

**2022 GWLAD A THEMA**

## **GWYBODAETH GEFNDIROL AM GYMRU, LLOEGR a GOGLEDD IWERDDON**

Mae Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhan o'r grŵp o ynysoedd sy'n cael eu hadnabod fel Ynysoedd Prydain. Mae'r Alban hefyd yn rhan o'r Deyrnas Unedig ond mae ganddi ei threfniadaeth ei hun ar gyfer Dydd Gweddî'r Byd.

Rydym yn fach, gyda'r tair gwlad gyda'i gilydd tua'r 80<sup>fed</sup> yn y byd o ran maint wrth gymharu arwynebedd (o dan 165,000 milltir sgwâr rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon).

Mae Cymru'n wledig ei chymeriad, gyda mynyddoedd yn ei rhychwantu ac arfordir garw yn ei hamgylchynu. Byddai ei meysydd glo mawr yn y De yn darparu cynnyrch helaeth i'w allforio trwy ddinasoedd fel Casnewydd, Abertawe a Chaerdydd.

Mae Gogledd Iwerddon yn cynnwys Lough Neagh, un o'r llynnoedd dŵr ffres mwyaf yng Ngorllewin Ewrop, yn ogystal â Sarn y Cewri, crynswth trawiadol o golofnau basalt cydglöedig oddi ar arfordir swydd Antrim, a achoswyd gan ffrwydra folcanig hynafol.

Mae gan Loegr dirweddau llai dramatig, ond mae ganddi hithau hefyd arfordiroedd trawiadol, yn enwedig yn y de-orllewin, tra bod gan y gogledd lynnoedd, mynyddoedd ac ardaloedd eang o weundir a choedwigoedd. Gan Loegr y mae'r lefel uchaf o ddatblygiad trefol.

Mae pobl wedi siapio ein tirwedd, yn gyntaf trwy ffermio. Roedd da byw yn pori ar y bryniau, gan beri i ardaloedd helaeth o goetir naturiol ddiflannu. Yn niwedd y canol oesoedd, cafodd tir comin ei amgáu gan farwniaid ffiwdal grymus. Yn y 18fed a'r 19eg ganrif, cafodd rhai rhannau o'r wlad eu diboblogi, wrth i ddiwydianeiddio dynnu pobl o gefn gwlad i drefi a dinasoedd a oedd yn tyfu.

### **Hanes**

Gan dyfu trwy fordwyo, anturio, morladrata, masnachu a choloneiddio, roedd Prydain ymysg y gwledydd cyntaf yn y byd i ddiwydianeiddio, trwy ddefnyddio'i hadnoddau daearyddol ei hun, yn lo, llechi a thun, ac yn ddiweddarach, adnoddau'r gwledydd a goloneiddiwyd. Gwelsom ddatblygiadau sylweddol mewn gwyddoniaeth, mathemateg, meddygaeth a diwydiant.

Rydym yn gynyddol ymwybodol o ran yr Ymerodraeth yn y fasnach gaethweision a rychwantodd y byd ac effeithiau newid hinsawdd a ddeilliodd o'r cynnydd technolegol hwn. Ar y llaw arall, mae dod â phobl o wahanol rannau o'r byd at ei gilydd dros y 200 mlynedd ddiwethaf wedi arwain hefyd at ddiwyllianau'n cyfoethogi ei gilydd trwy symudiad pobl i mewn ac allan o'r Deyrnas Unedig.

### **Pobl**

Mae poblogaeth Lloegr wedi cael ei chyfoethogi dros y canrifoedd gan donnau o ymfudo. Roedd mewnfudwyr cynnar yn cynnwys pobl o dir mawr Ewrop, fel yr Huguenotiaid, yn dianc rhag erledigaeth grefyddol, y rhoddwyr amddiffyniad brenhinol iddynt.

Mae diplomyddiaeth, masnach a dysg academiaidd yn wastad wedi cyfrif am laweroedd o awduron, meddylwyr a gwleidyddion. Wrth i ddylanwad Prydain ledaenu dramor, daeth niferoedd mwy o bobl o bellafoedd byd i fyw yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn aml o gwmpas porthladdoedd, fel yn achos Llundain, Lerpwl a Chaerdydd, tair dinas sydd â hen gymunedau o Tsieiniaid ac Iddewon.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, daeth gweithwyr o Ymerodraeth Prydain, y Gymanwlad yn ddiweddarach, i'r Deyrnas Unedig i weithio yn y sector cyhoeddus fel gweithwyr trafndiaeth a nyrsys. Cafodd rai ohonynt amser caled ar y cychwyn. Fodd bynnag, mae amrywiaeth bellach yn ffordd o fyw yn ein trefi a dinasoedd.

Mae hyn i gyd wedi arwain at ddiwylliannau cyfoethog mewn cymunedau amlethnig fel Birmingham, Caerlŷr, ac yr 'East End' a Southall yn Llundain. Mae synagog Bevis Marks yn yr East End yn dyddio'n ôl i 1701; Woking, yn Surrey, yw cartref mosg gyntaf Lloegr, a adeiladwyd yn 1889 gan fewnfudwr o Hwngari; mae Teml Hindw Neasden yn llenwi safle anferthol yng ngogledd-orllewin Llundain. Mae adeilad ar Brick Lane yn Llundain sydd wedi bod yn gapel Methodistaidd, yn eglwys Huguenot a synagog, ac mae bellach yn fosg.

Yn union wedi'r Ail Ryfel Byd, roedd ton o fewnfudo yn bennaf o Weriniaeth Iwerddon a Jamaica. Dilynwyd hyn gan don fwy, yn bennaf o wledydd eraill y Gymanwlad, yn enwedig Pacistan ac India.

Fodd bynnag, yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif, mae mwy o fewnfudwyr wedi dod o Ewrop. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, tair gwlad enedigol fwyaf cyffredin mewnudwyr i'r Deyrnas Unedig yw Gwlad Pwyl, India a Pacistan.

## **Merched, Teulu a Iechyd**

Yn gyffredinol, ers cychwyn diwydianeiddio a'r symudiad o'r wlad i'r trefi trwy gydol y 18<sup>fed</sup> a'r 19<sup>eg</sup> ganrif, mae cyfradd genedigaethau wedi codi a chyfradd marwolaethau plant wedi gostwng trwy Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Byddai dynes yn 1800 yn cael rhwng 5 a 7 o blant ar gyfartaledd. Byddai rhieni'n debygol o golli 2 neu 3 o'u plant yn ychydig flynyddoedd cyntaf eu hoes. Fodd bynnag, dengys ffigurau diweddar fod tlodi'n dal i fod. Mae marwolaethau plant yn sefyll ar 4 i bob mil ar hyn o bryd a dengys ffigurau newydd o'r Resolution Foundation fod y nifer o blant sy'n byw mewn tlodi cymharol ar y ffordd i daro 37 y cant, gan dorri'r record flaenorol o 34 y cant a gofnodwyd yn yr 1990au.

Erbyn diwedd 2021, gall y bydd mwyafrif y plant sydd mewn teuluoedd un rhiant neu mewn teuluoedd mwy – gyda dau neu fwy o blant – yn byw mewn tlodi cymharol.

Nid yw'r berthynas rhwng pobloedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi bod yn syml nac yn heddychlon bob amser

## **Cymru**

Yn y 13<sup>eg</sup> ganrif, dioddefodd Cymru ormes a choncwest o dan ddwylo'r Brenin Edward I o Loegr, ac mae ei res o gestyll mawreddog ar hyd gogledd Cymru yn dystiolaeth hyd heddiw o hyn.

Yn fwy diweddar, mae'r pwysau a roddwyd ar Gymru wedi bod yn ddiwylliannol a ieithyddol yn hytrach na'n filwrol; hyd at yn gynnar yn yr 20<sup>fed</sup> ganrif roedd plant ysgol yng Nghymru yn cael eu cam-drin trwy orfod gwisgo 'Welsh Not' am eu gwddf os oeddent yn cael eu dal yn siarad Cymraeg.

Tyfodd pryderon ynghylch dirywiad yr iaith, a'i thranc posibl, ac ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu fe'i gwnaed yn iaith swyddogol o'r diwedd. Yn ôl data'r cyfrifiad, caiff ei siarad gan tua 19% o boblogaeth Cymru erbyn hyn.

Mae pwyslais cryf ar addysg cyfrwng Cymraeg ac mae bellach yn bosibl cwblhau addysg, gan gynnwys addysg prifysgol, yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg. Law yn llaw â hyn, mae diwydiant cerddoriaeth, cyfryngau a diwylliannol Cymraeg llewyrchus.

Fe wnaeth cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg gan William Morgan (1588) a'r defnydd a wnaed ohono drwy gydol yr 19<sup>eg</sup> a'r 20<sup>fed</sup> ganrif chwarae rhan allweddol ym mharhad yr iaith trwy adegau anodd. Heddiw, mae'r Gymraeg yn dal yn elfen hanfodol o hunaniaeth Cymru, yn enwedig yng ngogledd a gorllewin y wlad.

Ers 1999, mae gan Gymru ei llywodraeth ei hun gyda rhai swyddogaethau wedi eu datganoli i'r brifddinas Caerdydd o Senedd San Steffan.

## Gogledd Iwerddon

Sefydlwyd Gogledd Iwerddon yn 1920 yn dilyn Rhyfel Annibyniaeth Iwerddon a arweiniodd ar rannu Iwerddon gan ffurfio Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Arweiniodd hyn at gyfnodau o aflonyddwch sifil a ddaeth yn dreisgar yn 1968.

Parhaodd y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon am dros 30 mlynedd gydag ymosodiadau terfysgol ar dir mawr Prydain, Gweriniaeth Iwerddon a hyd yn oed gyfandir Ewrop. Caiff y cyfnod hwn ei adnabod fel 'yr helyntion', pryd y cafodd 3,600 o bobl eu lladd a miloedd eu hanafu.

Yn ystod yr 1970au, bu dwy enillydd gwobr heddwch Nobel, Mairead Corrigan Maguire a Betty Williams, yn ddylanwadol wrth geisio ffyrdd o ddod â'r trais i ben ac wrth ffurfio'r Community of Peace People. Yn 1998, roedd arwyddo Cytundeb Dydd Gwener y Groglith yn cynrychioli diwedd y rhan fwyaf o'r trais ac, o ganlyniad, sefydlwyd Cynulliad a oedd yn seiliedig ar rannu grym, gyda chynrychiolwyr o gymunedau Unoliaethol a Chenedlaetholgar yn cael eu hethol ac yn cymryd eu seddau, a ffurfio Llywodraeth ar y cyd.

Cafodd y Cynulliad ei atal dros dro ym mis Ionawr 2017 yn dilyn honiadau o lygredd a chamreoli cynllun cymhellion gwres adnewyddadwy. Cafodd y Cynulliad ei ailsefydlu dair blynedd yn ddiweddarach, ym mis Ionawr 2020, ar ôl i bob ochr ddatrys eu gwahaniaethau gyda Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog newydd, y ddwy yn ferched.

Mae llawer yn y llywodraeth a'r sectorau gwirfoddol, ysgolion, eglwysi a'r gymuned wedi bod yn gweithio tuag at reoli gwrthdaro, cofleidio amrywiaeth a galluogi mwy o barch a chyd-ddealltwriaeth. Mae'r Corrymeela Community, ers ei sefydlu gan Ray Davey yn 1965, hefyd wedi bod yn gweithio i drawsnewid yr ymranid trwy gael pobl i gyfarfod ei gilydd yn ei Ganolfan yn Ballycastle a'r tu hwnt.

## CLIGI Heddiw

Nid bywyd teuluol traddodiadol yw'r hyn sydd arferol bellach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Maint mwyaf cyffredin aelwydydd – gyda 9,609,000 ohonynt, yw dau o bobl. Ail faint mwyaf cyffredin aelwydydd yw un! Canfu astudiaeth ddiweddar mai oedran cyfartalog dynes sengl sy'n priodi yw 30.8 mlwydd erbyn hyn, sydd wedi codi ychydig dros wyth mlynedd ers 1971, pryd roedd y cyfartaledd yn 22.6 mlwydd oed. Yn 2017, roedd mymryn dros hanner y boblogaeth (51.0%) 16 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr yn briod. Er ein bod yn dathlu'r cynnydd mae merched wedi'i wneud yn ein cymdeithas, rydym yn dal i'w chael yn anodd rhwystro trais yn ein cartrefi, gwella bywydau'r rheini sy'n byw mewn tloidi a chefnogi'r rheini sydd ag anabledau corfforol, meddyliol ac emosiynol. Disgwyliad oes merched yn y Deyrnas Unedig yw 82 o flynyddoedd.

## Bwyd

Mae'r hinsawdd sydd braidd yn llaith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn golygu bod bwyd traddodiadol yn aml yn gysurus a chynhesol. Diddorol yw nodi bod prydu sy'n cael eu gweld fel rhan greiddiol o hunaniaeth y tair gwlad – fel pysgod a sglodion – yn aml wedi cael eu cyflwyno gan ffoaduriaid ac ymsefydlwyr o wledydd eraill. Yn yr un modd, mae hoffter mawr o gludfwyd Tsieineaidd ac Indiaidd ac mae 'chicken tikka masala' yn ffefryn. Mae gan y tair gwlad ei phrydau cenedlaethol a'i hamrywiaethau rhanbarthol arbennig ei hun, er enghraifft teisennau cri yng Nghymru a *champ* Gogledd Iwerddon. Gall Lloegr hawlio llawer o ddanteithion a bwydydd lleol a gaiff eu hallforio i bedwar ban byd bellach, gan gynnwys caws Cheddar, pasteion a hufen ceuledig Cernyw, pasteion porc Melton Mowbray a phwdin Swydd Efrog.

## **Addysg**

Yn gyffredinol, mae plant yn cychwyn yn yr ysgol yn bump oed, yn symud o addysg gynradd i addysg uwchradd yn 11 ac yn cwblhau eu haddysg ysgol yn 18. Mae gan Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ysgolion y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol sy'n codi tâl, er bod y rhain y tu hwnt i gyrraedd y mwyafrif o deuluoedd.

Er nad oedd Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn caniatáu merched i raddio tan 1920, merched bellach yw mwy na hanner y rheini sy'n astudio am raddau cyntaf. Yr unig bynciau lle maent yn dal yn y lleiafrif yw gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg.

Pleidleisiodd y Deyrnas Unedig trwy fwyafrif bach i adael yr Undeb Ewropeaidd yn refferendwm Brexit 2016. Daeth hyn i rym bedair blynedd yn ddiweddarach a chychwynnodd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ynghyd â'r Alban, ar bennod newydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Amser a ddengys beth fydd canlyniadau'r statws newydd hwn.

## **Dydd Gweddi'r Byd**

Fel un o fudiadau unigol Dydd Gweddi'r Byd, mae tri llais Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi dod at ei gilydd i gyflwyno'r gwasanaeth eleni, gan gydnabod ein gwahaniaethau ond hefyd y tir cyffredin rhyngom.

Ar hyn o bryd, mae Pwyllgor Cenedlaethol Dydd Gweddi'r Byd yn cynnwys 17 o wahanol enwadau Cristnogol. Rydym yn dyrannu dros 40 o grantiau i elusennau cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn cefnogi partneriaid gweddi yn Albania, gan anfon cynrychiolwyr yn rheolaidd i ymweld â mudiad Dydd Gweddi'r Byd yn Albania.

Rydym yn parhau i adolygu'r hyn a wnawn ac addasu i newidiadau mewn cyfathrebu a thechnoleg.

Mae'n swyddfa yn Tunbridge Wells yn cydgysylltu'r gwaith o ddosbarthu deunyddiau gwasanaethau, gan gynnwys gweithgareddau i blant ac ieuencid ac mae'n gwefan yn cyflwyno newyddion o'r cyfan a wnawn.

Rydym yn cyhoeddi ar Twitter a Facebook hefyd ac rydym yn falch iawn o'r nifer o 'drawiadau' a gawn. Ceir gwybodaeth yn Gymraeg ar Gweplyfr 'Dydd Gweddi'r Byd.'